Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Cernyw
# Llangernyw
# Abergele
# Conwy
# LL22 8PP

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Cernyw ym mhentref Llangernyw ger tref Abergele.  Daw o dan ofal awdurdod lleol Conwy.  Mae 101 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser.  Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng pedwar dosbarth oed cymysg.  Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Mae tua 9% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae'r ysgol wedi adnabod 12% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Nid oes unrhyw ddisgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Ychydig iawn o ddisgyblion ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2007 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror, 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Cernyw yn 2015-2016 yw £3,967.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £9,616 a'r lleiafswm yw £3,227.  Mae Ysgol Bro Cernyw yn y 32ain safle o'r 57 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus.
- ymddygiad bron pob disgybl yn dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus
- yr athrawon yn darparu profiadau dysgu dychmygus sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion ymhob dosbarth, sy'n creu ethos cyfeillgar a gofalgar

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- y corff llywodraethwyr yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau
- partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref, sy'n sicrhau bod rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant
- partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol sy'n hyrwyddo Cymreictod a medrau cymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Gwella safonau sillafu Saesneg

A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i sylwadau athrawon ar eu gwaith ac i asesu eu gwaith eu hunain a’u cyfoedion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn gynnar iawn ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd gwahanol. Maent yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau athrawon yn y ddwy iaith. Maent yn cyfrannu'n dda i drafodaethau gan fynegi barn yn glir.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn adnabod seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau o oed cynnar. Maent yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn medru trafod eu hoff lyfrau a disgrifio cymeriadau'n llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn effeithiol. Maent yn datblygu mwy o ruglder ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r testun.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn medru ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac i wahanol gynulleidfaoedd yn llwyddiannus, gan sillafu a defnyddio atalnodi i safon sy'n unol â'u hoed a'u gallu. Er enghraifft, disgrifiad o gartref cymeriad allan o stori Gymreig. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau amrywio brawddegau ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Er enghraifft, ysgrifennu sgript rhaglen deledu yn seiliedig ar gyfweliadau gyda chwaraewyr tîm rygbi Cymru. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o eirfa'n llwyddiannus i gyfoethogi'u gwaith gan gynnwys ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir yn eu gwaith Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn medru datrys problemau rhif yn llwyddiannus, defnyddio unedau mesur priodol a chasglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar, er enghraifft, cofnodi hoff liwiau tedi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus. Maent yn adnabod

a mesur gwahanol onglau'n llwyddiannus. Pan fyddant yn derbyn cyfleoedd i wneud hynny, mae'r rhan fwyaf yn gallu cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, gallant ddefnyddio medrau rhif a mesur i ddatrys problemau yn ymwneud â dogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r gwahaniaeth yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod yn amrywiol dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg yn gyffredinol is nag yn y pynciau craidd eraill.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r disgwyl ymhob un o'r pynciau craidd yn is na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae'r rhan fwyaf yn manteisio ar gyfleoedd da o fewn yr ysgol i gadw'n heini a datblygu eu ffitrwydd. Mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn dangos brwdfrydedd wrth ymgymryd â'r profiadau dysgu diddorol a ddarperir. Maent yn llawn cymhelliant, yn foesgar ac yn gwrtais iawn. Mae bron pob un yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn cydweithio'n dda ag eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos balchder tuag at eu gwaith. Mae gallu rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen i weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau drostynt eu hunain yn nodwedd arbennig o effeithiol. Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 syniad priodol o'u cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn dangos tuedd o welliant ac mae yn yr 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae’r disgyblion yn manteisio’n llwyddiannus ar gyfleoedd cyson i leisio barn ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu. Mae aelodau’r cyngor ysgol yn cyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol ac yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae ganddynt brofiad o gymryd rhan flaenllaw yn y broses o benodi aelodau staff. Mae’r cyngor eco wedi ailsefydlu yn ddiweddar ac mae ymwybyddiaeth yr aelodau o’u cyfrifoldebau yn datblygu’n dda.

Mae’r rhan fwyaf yn chwarae rhan lawn ym mywyd y gymuned. Maent yn cymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau cymunedol ac yn casglu arian at elusennau lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymglymiad i’w cymuned. Maent yn falch o’u cyfraniad wrth drefnu nifer o ddigwyddiadau i godi arian i brynu adnoddau i’r ysgol, er enghraifft ffrâm ddringo ac offer gymnasteg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy’n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae’r athrawon yn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae’r profiadau dysgu yn ddychmygus ac yn ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu’n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion, gan hybu eu hannibyniaeth a datblygu eu medrau meddwl. Mae’r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau amrywiol yn cyfoethogi’r cwricwlwm a’r profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol wedi ymgorffori elfennau pwysig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn lled briodol i’w chynlluniau. Mae hyn yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol. Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, ni ddarperir digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn effeithiol. Mae gwaith y grŵp ‘Dreigiau Digidol’ yn atgyfnerthu hyn yn dda.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau Cymraeg y disgyblion. Mae parodrwydd yr ysgol i drefnu eisteddfod y gymdeithas a manteisio ar arbenigedd pobl leol y cryfhau’r elfen hon yn dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad a safonau disgyblion.

Mae’r ysgol yn darparu’n effeithiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o’r byd ehangach. Mae’r gweithgareddau fel yr wythnos ryngwladol a ‘Doto ar daith’ yn cyfrannu’n llwyddiannus tuag at gynyddu dealltwriaeth disgyblion o’u rôl fel dinasyddion byd-eang. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn meithrin annibyniaeth a datblygu medrau iaith disgyblion yn gynnar. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm ac maent yn darparu tasgau diddorol sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn modelu iaith safonol yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar gywirdeb llafaredd y rhan fwyaf o'r disgyblion. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion.

Mae athrawon yn gwneud defnydd cadarn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig adborth addas iddynt, gan nodi beth y maent wedi ei gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i weithredu ar adborth athrawon trwy ailddrafftio darnau o waith. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu digon o gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i'w sylwadau nac i asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr a defnyddiol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion yn gywir. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o ddata i olrhain cynnydd y disgyblion ac i ddadansoddi canlyniadau phrofion cenedlaethol er mwyn darparu cefnogaeth briodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant, gan gynnwys adroddiadau blynyddol cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad da a datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd effeithiol ar gael i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol drwy wasanaethau ysgol a gweithgareddau yn y gymuned.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol sy'n cynnwys yr heddlu, therapyddion iaith, gwasanaeth cwnsela, seicolegwyr addysg a'r gwasanaeth iechyd, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cymorth a chynhaliaeth briodol mewn meysydd pwysig. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau yn drwyadl, ac yn galluogi'r staff i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Defnyddir rhaglenni ymyrraeth pwrpasol sy'n ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cynlluniau addysg unigol a ddarperir ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir. Mae'r rheini a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn dda yn yr adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau hyn. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Ysgol Bro Cernyw ethos cynhwysol, cefnogol a chyfeillgar. Mae'n ysgol gynhwysol sy'n rhoi pob cyfle i'r disgyblion gael ystod eang o brofiadau amrywiol o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Maent yn cynnig cefnogaeth a chysur i bawb sy'n rhan o'i chymuned. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn oddefgar ac i gefnogi'r gymuned leol ac elusennau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ac aeddfedu i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'i hamgylchedd ffisegol. Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau perthnasol. Defnyddir rhannau o'r ardaloedd cymunedol fel y maes chwaraeon, er mwyn cynorthwyo'r dysgu yn effeithiol. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r staff a'r llywodraethwyr sy'n eu hannog i roi pwyslais ar wella cyrhaeddiad a lles disgyblion. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gydweithio cadarnhaol. Mae'r pennaeth yn adnabod cymhwysedd, cryfder a diddordeb athrawon unigol yn effeithiol ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau yn synhwyrol. Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sy'n nodi cyfrifoldebau priodol yn glir.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn effeithiol i drafod materion sy'n ymwneud â chynllunio, pennu blaenoriaethau a chanolbwyntio ar gynnydd disgyblion. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad trylwyr sy'n bodoli yn cyfrannu'n briodol at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cael effaith arwyddocaol ar brofiadau disgyblion, er enghraifft ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn y cynlluniau gwaith.

Mae’r corff llywodraethol yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac mae ei aelodau yn ymgymryd â’u dyletswyddau’n effeithiol. Maent yn meddu ar wybodaeth drylwyr am ddata, cryfderau'r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Mae eu hymweliadau cyson yn eu galluogi i gyfrannu’n fwy effeithiol at y gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn hyderus ynglŷn ag agweddau ar y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus yn bodoli, sy’n canolbwyntio’n gadarn ar ddeilliannau disgyblion. Mae hyn wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol. Mae’n broses effeithiol sy’n galluogi’r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith ac arsylwi mewn gwersi. Mae’r adroddiad hunanarfarnu’n arfarnol a gonest ac yn rhoi darlun clir a chytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’n nodi’r cryfderau a’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach yn llwyddiannus. Mae cyfraniad y llywodraethwyr i’r broses o graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn ystyried barn rhieni yn rheolaidd ac yn rhoi pwyslais cryf a chyson ar wrando ar lais y disgybl.

Mae’r cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio’n glir ar wella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae’r blaenoriaethau yn seiliedig ar ganfyddiadau’r weithdrefn hunanarfarnu, ac yn cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Mae’n ddogfen gryno a chlir gyda nifer rhesymol o flaenoriaethau. Mae pob cynllun wedi ei ariannu’n addas ac wedi ei osod o fewn fframwaith amser ymarferol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy’n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith arwyddocaol ar eu deilliannau a’u safonau. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae rhieni’n gefnogol iawn i’r ysgol, ac yn cyfrannu symiau sylweddol o arian i ddiwallu profiadau ac adnoddau. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni.

Mae’r cysylltiadau amrywiol a niferus â’r gymuned leol yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Mae ymweliadau disgyblion â’r gymuned i amrywiol bwrpasau, a’r defnydd o drigolion lleol i sgwrsio â nhw, yn ehangu profiadau’r disgyblion yn sylweddol. Er enghraifft, darparu adloniant a gweini’n flynyddol yn ystod cinio Nadolig yr henoed a chreu saws afal gyda chynnyrch gardd yr ysgol i’w werthu mewn gŵyl fwyd leol. Mae’r disgyblion hefyd yn cydweithio â’r Cyngor Cymuned i gadw’r pentref yn daclus trwy addurno’r arhosfa bws a phlannu planhigion mewn basged grog. Mae profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a’u balchder yn eu hardal leol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant iach o gydweithio effeithiol gydag ysgolion eraill sy’n esgor ar gyfleoedd amrywiol i godi safonau disgyblion ac ehangu eu profiadau. Er enghraifft, cydweithio i godi safonau ysgrifennu ac i greu llyfryn i rieni ar ddulliau cyfrifiannu. Mae cydweithio effeithiol a threfniadau pontio amrywiol yn hyrwyddo trosglwyddo llwyddiannus i’r disgyblion i’w hysgol uwchradd.

Mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin sy’n cyfarfod ar dir yr ysgol. Mae ymweliadau gwerthfawr yn paratoi darpar ddisgyblion yn dda ar gyfer dechrau’n amser llawn yn yr ysgol.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. Maent yn elwa o'r profiadau hyn ac mae athrawon yn datblygu eu medrau wrth asesu a chymedroli gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi’r addysgu a’r dysgu. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth arbennig i athrawon ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae prosesau rheoli perfformiad trylwyr yn bodoli, sy’n cynnig cyfleoedd hyfforddiant i ddiwallu anghenion proffesiynol yr holl staff yn dda. Mae eu datblygiad proffesiynol parhaus yn cysylltu'n glir â’r blaenoriaethau sydd yng nghynllun datblygu’r ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli’n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o’r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg, er enghraifft, yn y defnydd helaeth a chyson a wneir o’r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r ysgol yn rhan o nifer o rwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill sy’n cynnig ystod eang o gyfleoedd i wella safonau gwaith disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu medrau cymhwyso digidol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arian o ffynonellau eraill i wella’r ddarpariaeth yn yr ysgol, er enghraifft symiau sylweddol o arian gan y gymdeithas rieni ac athrawon.

Mae’r ysgol yn targedu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn synhwyrol ar gyfer y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn cinio am ddim, gan gynnwys disgyblion uwch eu gallu. Mae’r grant yn bennaf yn ariannu cymorthyddion dysgu i gefnogi datblygiad medrau sylfaenol disgyblion o fewn y dosbarth, neu mewn grwpiau i ymateb i anghenion penodol, er enghraifft i wella safonau Saesneg a mathemateg.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd effeithiol y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622148 - Ysgol Gynradd Bro Cernyw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 103 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 15 | 12 | 15 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.3 | 91.7 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 14 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 91.7 | 100.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 66.7 | 64.3 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 100.0 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 25.0 | 0.0 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 33.3 | 93.3 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622148 - Ysgol Gynradd Bro Cernyw**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 103 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 6 | 10 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 91.7 | 100.0 | 90.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 6 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 100.0 | 80.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | * | * | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | * | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 6 | 10 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 72.7 | 83.3 | * | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 6 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 100.0 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 6 | 10 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 58.3 | * | * | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 55 | 55 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 55 | 51 | 4 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 55 | 54 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 55 | 53 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 55 | 51 | 4 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 55 | 50 | 5 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 55 | 54 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 55 | 54 | 1 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 55 | 47 | 8 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 54 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 55 | 47 | 8 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 85% | 15% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 55 | 43 | 12 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 12 | 5 | 5 | 2 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 42% | 42% | 17% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 11 | 7 | 3 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 27% | 9% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 6 | 6 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 46% | 46% | 8% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 12 | 7 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 11 | 4 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 36% | 64% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 6 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Dilys Ellis-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sioned Green | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.